# PROCLAMASIWN

## CYMRAEG YN HANFODOL

Mae Cymdeithas yr Iaith yn galw ar y cyrff cyhoeddus hynny sydd yn gwasanaethu ein cymunedau Cymraeg, i gymryd camau pendant ar frys i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn dod yn hanfodol i'w holl waith. Mae cymryd camau o'r fath yn angenrheidiol os ydym am normaleiddio'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel cyfrwng byw o fewn ein cymunedau.

Er mwyn cyflawni hyn, dylai'r Gymraeg gael ei sefydlu fel iaith weinyddol fewnol cyrff pwysig megis Cynghorau Sir ac Awdurdodau Iechyd a phob asiantaeth gyhoeddus arall sy'n gweithio tu fewn i'r cymunedau Cymraeg.. Ar ben hynny, dylai'r gallu i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn rhan hanfodol i bob cwrs mewn Colegau Addysg Bellach ac hefyd yn rhan hanfodol o addysg gynradd ac uwchradd.

Ni bydd byw ein cymunedau Cymraeg oni ddaw'r Gymraeg yn hanfodol i holl waith y cyrff cyhoeddus sy'n eu gwasanaethu, a hynny er mwyn annog trigolion oll y cymunedau hyn i ddysgu a denyddio'r iaith.

O hyn allan, galwn am *Ddwyieithrwydd Cymraeg* yn lle'r dwyieithrwydd Saesneg presennol. Yn lle bod cyrff cyhoeddus yn gweithio (gydag ychydig eithriadau) trwy'r Saesneg gyda chyfieithu symbolaidd i'r Gymraeg, bydd y cyrff hyn yn gweithio trwy'r Gymraeg gan gyfieithu gwybodaeth berthnasol ar gyfer trigolion sy'n parhau'n ddi-Gymraeg. Cofnodir cost y cyfieithu hwn fel gwariant ar yr iaith Saesneg.

Bydd aelodau Cymdeithas yr Iaith yn y cymunedau Cymraeg yn ymgyrchu i weddnewid ein cyrff cyhoeddus.

cymdeithas yr IAITH gymraeg